Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Emmanuel

**Victoria Road**
**Y Rhyl**
**LL18 2EG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Emmanuel

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Emmanuel |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 466 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 348 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 59 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 52.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 19.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |
| | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r pennaeth, trwy arweinyddiaeth drawsnewidiol, wedi creu ethos tîm hynod effeithiol ymhlith staff mewn cyfnod amser cymharol fyr, sydd wedi'i adeiladu ar sail perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth a chydweithio. Mae hi wedi ennyn y gorau oll ymhlith staff yr ysgol trwy eu hannog a'u grymuso i wneud y defnydd gorau o'u medrau a'u profiad, er enghraifft trwy ddarparu cymorth rhagorol i ddisgyblion a'u teuluoedd yn y gymuned leol. At ei gilydd, mae arweinwyr yr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn dda, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gynnydd disgyblion. Trwy fonitro trylwyr, mae arweinwyr yn ymwybodol bod angen iddynt wella safon Cymraeg y disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae gan arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr yr ysgol, ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a staff a dyheadau uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Emmanuel. Maent yn datblygu lefelau uchel o barch at yr oedolion sy'n gofalu amdanynt, ac yn ffyddiog y bydd staff bob amser yn gweithredu er eu lles pennaf nhw. Maent yn ymddwyn yn dda, yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ystod amrywiol y profiadau dysgu a'r cyfleoedd y mae'r ysgol yn eu darparu, ac yn datblygu synnwyr cryf o berthyn i'w chymuned. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan gynnwys y rhai yn y darpariaethau anogaeth ac adnoddau, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu cariad at ddarllen ac yn siarad â chyffro am eu dysgu, yn enwedig am gyfleoedd i fod yn gorfforol egnïol. Er eu bod yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol da, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r medrau hyn yn ddigon aml yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae agweddau disgyblion at ddysgu yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn awyddus i wneud yn dda ac ymgymryd â heriau newydd. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn dechrau datblygu medrau defnyddiol sy'n eu helpu i fyfyrio ar eu dysgu a meddwl am sut gallent wella'u gwaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn.

Mae staff yn adnabod y disgyblion, ac yn gwybod am eu hanghenion a'u diddordebau, yn eithriadol o dda. Yn yr ysgol brif ffrwd a'r darpariaethau anogaeth ac adnoddau, maent yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad sy'n galluogi disgyblion i fwynhau'r ysgol a chymryd rhan yn effeithiol mewn dysgu. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyd-fynd ag ethos a dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn amlwg mewn gwaith i archwilio syniadau fel 'perthyn' sy'n darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau, fel technegau holi effeithiol, i gefnogi dealltwriaeth disgyblion. Ar draws yr ysgol, maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu trwy weithgareddau ymarferol ac archwilio. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth dra ystyriol ar gyfer chwarae yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, personol, cymdeithasol a chorfforol yn llwyddiannus.

## Argymhellion

A1 Cryfhau ansawdd yr adborth i ddisgyblion fel eu bod yn deall sut i symud eu dysgu ymlaen

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella medrau Cymraeg disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â gweithredu ymagwedd ysgol gyfan at les, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

**Dysgu**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cryf yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn y ddarpariaeth adnoddau ac ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau llafaredd Saesneg. Mae disgyblion iau yn siarad â hyder am eu dysgu ac yn defnyddio ystod ddatblygol o eirfa. Er enghraifft, maent yn esbonio sut i chwarae gêm neu'n disgrifio'r trychfilod bach maent yn dod o hyd iddynt yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau gwrando a siarad yn dda i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, maent yn rhannu syniadau ac yn gwrando ar gyfraniad disgyblion eraill yn llwyddiannus wrth iddynt gydweithio i greu fframiau rhewi wedi'u hysbrydoli gan stori gyfarwydd.

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau dysgu ychydig o eiriau Cymraeg fel y tywydd a chyfarchion syml yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dysgu geirfa Gymraeg, fel rhannau o'r corff, yn dda, ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio ymadroddion syml wrth iddynt ddarparu cyfarwyddiadau ar gyfer tegan rhaglenadwy. Fodd bynnag, nid yw defnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r Gymraeg wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos brwdfrydedd am ddarllen ac yn gwneud cynnydd cryf yn y maes hwn o'u dysgu. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau derbyn yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym. Maent yn ymgyfarwyddo â geirfa

dechnegol fel 'digraph', sy'n eu cynorthwyo i adnabod a chyfuno seiniau gyda'i gilydd i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau syml yn hyderus gan roi ystyriaeth dda i atalnodi. Maent yn darllen gyda dealltwriaeth, er enghraifft pan fyddant yn gwneud awgrymiadau ystyriol i esbonio teimladau cymeriad mewn stori. Mae disgyblion hŷn yn adeiladu ar y cynnydd hwn yn dda ac yn datblygu ystod o strategaethau i ddod yn ddarllenwyr annibynnol rhugl. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o strwythur testunau a dealltwriaeth effeithiol o'r technegau llenyddol y maent yn dod ar eu traws, fel cwestiynau rhethregol ac iaith gynyrfiadol.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn datblygu eu medrau ysgrifennu. O oedran ifanc, maent yn dangos brwdfrydedd wrth arbrofi â chreu marciau a ffurfio llythrennau. Mae llawer ohonynt yn dysgu cymhwyso'u gwybodaeth am seiniau llythrennau yn effeithiol yn gyflym. Er enghraifft, maent yn gwneud cynigion credadwy i sillafu geiriau cymhleth wrth ysgrifennu cerdyn post at ffrind neu lythyr at gymeriad mewn stori yn annibynnol. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda ac yn eu cymhwyso mewn ystod o gyd-destunau perthnasol ar draws y cwricwlwm, fel llythyrau, adroddiadau papur newydd a thestunau perswadiol. Yn aml, maent yn dangos ymwybyddiaeth effeithiol o'r darllenydd, gan ddefnyddio iaith ac atalnodi yn effeithiol. Un o nodweddion penodol ysgrifennu disgyblion yw cyfleu empathi a gofal am bobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ysgrifennu cerddi meddylgar am gariad, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn ysgrifennu â sensitifrwydd am helyntion plentyn sy'n ffoadur ffuglennol.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o wahanol feysydd mathemateg yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn ennill gafael gadarn o rifau a'u gwerth. Er enghraifft, maent yn adnabod digidau rhif wrth ddefnyddio ffôn tegan ac yn cyfrif bysedd ffrind yn gywir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn datblygu dealltwriaeth dda o amser a mesurau, er enghraifft pan fyddant yn mesur ystod o wrthrychau i'r centimetr agosaf â chywirdeb. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gyda rhifau mawr yn hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ffracsiynau a nodiant degol. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol mewn cyd-destunau dilys. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn dda. Mae disgyblion iau yn datblygu eu dychymyg yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn adeiladu tŷ yn y safle adeiladu chwarae rôl neu'n creu llong môr-ladron fanwl sy'n chwilio am drysor. Ym Mlwyddyn 3, mae disgyblion yn datblygu eu medrau tynnu llun yn dda wrth iddynt greu hunanbortreadau dychmygus o ddreigiau wedi'u hysbrydoli gan stori gyfarwydd. Mae disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn datblygu eu dealltwriaeth o rythm a pherseinedd yn llwyddiannus trwy weithdai drymio Samba rheolaidd.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau digidol i gefnogi eu dysgu'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn rhaglennu tegan yn llwyddiannus i ddod o hyd i'r ffordd o gwmpas llwybr ac yn creu cyflwyniadau fideo addysgiadol am daith trên. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio codau QR yn effeithiol, er enghraifft i gysylltu â fideo sy'n ymestyn eu dealltwriaeth o'r system dreulio ddynol.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio gwahanol apiau cyflwyniad i recordio'u gwaith ar amrywiaeth o destunau a themâu. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth disgyblion o sut i ddefnyddio neu greu taenlenni a chronfeydd data yn gyfyngedig.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus iawn i fynd i'r ysgol, yn awyddus i ddysgu ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig yn eu gwersi. Mae'r berthynas gref a pharchus rhwng staff a disgyblion yn eu galluogi i ddysgu a datblygu fel unigolion cyflawn. Maent yn dangos balchder yn eu hysgol a'u gwaith ac yn teimlo'n ddiogel o fewn ei hethos cynhwysol a gofalgar. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r ffaith fod oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried wrth feddwl am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Enghraifft dda o hyn yw pan gyfrannodd y Cyngor Ysgol at bolisi ymddygiad yr ysgol cyn iddo fynd gerbron y corff llywodraethol i'w gytuno.

Mae disgyblion yn gwrtais a chroesawgar ag oedolion ac ymwelwyr, ac mae eu hymddygiad yn dda iawn, ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda ac yn dangos parch at gyfraniadau eu cyfoedion. Maent yn datblygu'n dda fel dysgwyr galluog ac uchelgeisiol, mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos diddordeb cryf yn eu gwaith, gan siarad yn frwdfrydig am fywyd ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus ac yn falch o sgwrsio am eu dysgu. Er enghraifft, maent yn siarad yn gyffrous wrth drafod eu cariad at lyfrau a darllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn mynd ati i wneud tasgau yn awyddus, ac yn eiddgar i lwyddo. O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth sy'n cael ei roi gan eu hathrawon i wella'u dysgu, ac yn defnyddio hyn i olygu a gwella'u gwaith yn llwyddiannus.

Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwydnwch ac yn benderfynol o wneud eu gorau. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, dangosodd disgyblion fedrau cydweithio da wrth adeiladu cuddfan yn ardal yr ysgol goedwig. Gwelodd ychydig o ddisgyblion y gweithgaredd yn anodd, ond trwy drafod y broblem ar y cyd, daethant o hyd i ateb gwahanol a alluogodd iddyn nhw greu cuddfan yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn dangos lefelau da o annibyniaeth ac maent yn eithaf dyfeisgar. Mae'r medrau dysgu allweddol hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar eu gallu i ddyfalbarhau a chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu rhwystrau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn chwarae gyda'i gilydd yn frwdfrydig yn ystod amser egwyl ac amser cinio, er enghraifft wrth chwarae pêl-droed, pêl-fasged, a chydweithredu ar gampfa'r maes chwarae. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu lles corfforol. At ei gilydd, mae pob un o'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar yr amgylchedd dysgu pwrpasol yn yr awyr agored ac yn cymryd rhan mewn ystod helaeth o weithgareddau i gadw'n heini ac yn egnïol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod dewisiadau ynghylch bwydydd iach yn hyderus, ac fe gânt eu hannog i wneud hynny gan bob aelod o staff yn yr ysgol. Cynigir amrywiaeth eang o glybiau ar ôl yr ysgol ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6, ac mae nifer dda o ddisgyblion yn mynychu'r rhain. Maent yn cynnwys côr yr ysgol, clwb celf a chlwb gwnïo 'Snip and pin'.

Mae disgyblion yn datblygu'n dda iawn i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain ac yn chwarae rhan lawn a gweithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Cyngor Eco yn annog eu cyfoedion i fod yn ofalus o sbwriel o gwmpas yr ysgol a'r gymuned leol, er enghraifft pan fyddant yn cymryd rhan mewn digwyddiadau codi sbwriel y tu allan i'r ysgol ac yn y parciau lleol i ddiogelu plant ac anifeiliaid. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau trwy eu gwaith ar Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig. Mae gan bob dosbarth eu 'Llysgenhadon Arbennig' ('Super Ambassadors') eu hunain sy'n sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hyrwyddo ar draws yr ysgol. Mae'r 'Criw Cymraeg' yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn yr ysgol ac ar y maes chwarae. Mae disgyblion o'r ddarpariaeth adnoddau yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel 'Arweinwyr Chwarae' yn ddifrifol iawn, gan annog pob disgybl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod amser chwarae.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o'r angen i fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Trwy eu gwaith gyda swyddog lleol cyswllt yr heddlu, maent yn gwybod sut i ymateb os byddant yn wynebu problemau fel seiberfwlio.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr wedi gweithio gyda chymuned yr ysgol gyfan i ddatblygu cwricwlwm dyheadol sy'n canolbwyntio'n dda ar gyflawni gweledigaeth yr ysgol y bydd disgyblion yn 'Dysgu, Tyfu a Chyflawni'. Mae'r ysgol wedi datblygu cynlluniau tymor hir defnyddiol sy'n amlinellu meysydd dysgu a phrofiad i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion, ac yn diwallu eu hanghenion dros gyfnod.

Mae'r cwricwlwm wedi'i drefnu'n destunau cytbwys, trawsgwricwlaidd o amgylch thema ganolog. Mae gan ddatblygu darllen rôl ganolog, ac mae testunau a ddewisir yn ofalus yn ffurfio sylfaen yr holl destunau. Er enghraifft, mae athrawon disgyblion iau yn defnyddio stori adnabyddus fel symbyliad buddiol ar gyfer datblygu darllen, ysgrifennu a gwaith creadigol. Mae hyn yn cymell disgyblion ac yn dal eu diddordeb yn dda. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn llai datblygedig.

Mae'r ysgol yn adolygu'r cwricwlwm yn gyson, ac fe gaiff pob un o'r staff fewnbwn sylweddol i'w gynllunio a'i ddatblygu. Mae arweinwyr a staff yn darparu cyfleoedd defnyddiol i bob un o'r disgyblion leisio'u barn am y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon yn awr yn cynllunio ar gyfer gwneud mwy o ddefnydd o ardal ddysgu'r goedwig yn dilyn cais gan ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n ystyriol mewn adnoddau sy'n cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu gwersi ar ystod eang o feysydd, gan gynnwys rhagfarn ar sail rhywedd, peryglon cyffuriau ac alcohol, a chadw'n ddiogel ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu taflenni gwybodaeth am wahanol fathau o gyffuriau, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn dderbyniol yn gymdeithasol.

Mae darpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf wedi'i seilio ar amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a chwarae sy'n cyfoethogi ac yn cael eu cydlynu'n dda, sy'n datblygu medrau ac annibyniaeth disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn darparu ystod

effeithiol o weithgareddau ysgogol dan do, ac yn defnyddio darpariaeth awyr agored yn dda iawn. Mae hyn yn annog brwdfrydedd, dychymyg a medrau cydweithredol disgyblion yn llwyddiannus. Mae profiadau cyfoethogi ychwanegol yn ymestyn y cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, mae cynrychiolwyr o brifysgol leol yn darparu gweithdai gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg ar gyfer disgyblion hŷn. Ym Mlwyddyn 5, ymwelodd arbenigwr heboga gydag adar ysglyfaethus amrywiol â disgyblion tra oeddent yn astudio'r nofel, Sky Hawk. O ganlyniad, datblygon nhw ddealltwriaeth ddyfnach o'r testun i ymchwilio mwy am adar ysglyfaethus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ymgysylltu â'u cymuned leol. Mae disgyblion hŷn yn ymweld â chartref gofal lleol i ganu a threulio amser yn siarad â phreswylwyr a dod i'w hadnabod. Estynnodd y Cyngor Ysgol wahoddiad i'r maer lleol i feirniadu cystadleuaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu ymdeimlad disgyblion o berthyn o fewn eu cymuned yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ymweliadau oddi ar y safle i ymestyn y cwricwlwm a phrofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, ymwelodd disgyblion iau â pharc fferm lleol, ac mae disgyblion hŷn yn mynychu ymweliad preswyl blynyddol â Glan Llyn. Ceir cyfleoedd addas i ddatblygu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru. Mae disgyblion hŷn yn dathlu Dydd Santes Dwynwen ac mae disgyblion iau yn dysgu am stori Dewi Sant. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau Cymraeg disgyblion yn llai datblygedig.

Mae bron pob un o'r staff ar draws yr ysgol, gan gynnwys y ddarpariaeth adnoddau, yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cefnogol a chynhwysol ar gyfer dysgu. Maent yn rhannu ymagwedd bwyllog a gofalgar, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i ofyn am gymorth pan fydd angen. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, ac yn darparu cymorth hynod lwyddiannus ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol.

Mae athrawon a staff cymorth yn rhannu amcanion dysgu clir â disgyblion ac yn rhoi esboniadau buddiol i'w galluogi i wneud cynnydd effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gwersi'n symud ar gyflymdra addas ac yn darparu her briodol ar gyfer disgyblion. Mae llawer o athrawon yn galw dysgu blaenorol disgyblion i gof ar ddechrau gwersi yn dda. Mae hyn yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol ac yn eu helpu i gofio geirfa a chysyniadau allweddol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio ystod o ymagweddau buddiol at ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu trwy weithgareddau ymarferol, archwilio a chwarae. Ceir darpariaeth awyr agored dra ystyriol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a chorfforol yn dda. Mae pob un o'r staff yn defnyddio gemau i ymestyn dysgu yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn chwarae 'charades' gyda disgyblion hŷn i gefnogi eu dealltwriaeth o ferfau ac adferfau gorchmynnol. Maent yn defnyddio adnoddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn dysgu am swyddogaeth gwahanol ddannedd yn gynhyrchiol gan ddefnyddio pensetiau realiti rhithwir.

Mae llawer o staff yn defnyddio holi effeithiol yn rheolaidd i herio meddwl disgyblion a gwirio dealltwriaeth. Er enghraifft, maent yn gofyn i ddisgyblion meithrin gyfiawnhau eu rhagfynegiadau am ba greadur bach sy'n cuddio'r tu ôl i sgrin. Mae hyn yn cefnogi

datblygiad eu medrau meddwl a chyfathrebu yn llwyddiannus. Yn y ddarpariaeth adnoddau, mae holi ystyriol yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu syniadau ac ymestyn eu sgyrsiau yn gadarnhaol.

Bron ym mhob achos, mae athrawon a staff cymorth yn annog disgyblion ac yn eu canmol am eu cyflawniadau. Mae llawer o staff yn ymateb yn dda i ddisgyblion i fynd i'r afael â chamdybiaethau neu'u hatgoffa am fwriadau dysgu. Mewn lleiafrif o achosion, mae adborth yn cynorthwyo disgyblion i wneud gwelliannau syml i'w gwaith. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cywiriadau i atalnodi pan gânt eu sbarduno i wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw adborth cyffredinol i ddisgyblion wedi'i berthnasu digon i'r unigolyn i'w helpu i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, nid oes gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i wella'u gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn amgylchedd gofalgar a thosturiol lle mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer lles corfforol ac emosiynol disgyblion. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY), staff o'r tîm lles a darpariaeth adnoddau yn rhoi cymorth arbenigol gwerthfawr i ddisgyblion yn y lleoliadau hyn, ac yn ogystal, arweiniad ar gyfer pob aelod o staff. Mae hyn yn eu galluogi i gynorthwyo dysgwyr yn llwyddiannus a rhannu arfer dda ar draws yr ysgol. Mae tîm ymroddgar yn cyflwyno cymorth un i un, teilwredig ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion unigol disgyblion, pan fydd angen. Er enghraifft, er mwyn cynorthwyo disgyblion i oresgyn eu gorbryderon, mae cynorthwywyr addysgu yn darparu therapïau tynnu llun a siarad defnyddiol. Mae disgyblion hŷn yn derbyn cymorth buddiol ar sut i ddatblygu a chynnal cyfeillgarwch. Ategir cymuned yr ysgol gyfan gan berthnasoedd eithriadol o dda. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, maent yn ymgynefino â bywyd ysgol yn dda, ac yn mwynhau eu dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n annog disgyblion i fyfyrio ar eu hemosiynau a hunanreoli. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio angenfilod gofidiau i siarad am eu pryderon, a disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar ac anadlu. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn ac yn esbonio'n hyderus pa mor fuddiol y gall fod.

Mae'r drefn o ran rheoli disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn eithriadol o dda. Mae uwch arweinwyr wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan gyson tuag at reoli ymddygiad, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion emosiynol sylweddol. Mae staff yn gweithio yn ôl egwyddorion cytunedig mewn modd pwyllog a thosturiol, gan greu darpariaeth deilwredig ar gyfer gwahanol lefelau a mathau o angen emosiynol. Maent yn defnyddio technegau ymdawelu yn llwyddiannus, ac yn defnyddio offer neu ofod o gwmpas yr ysgol i gyflawni anghenion synhwyraidd disgyblion.

Mae'r gofal a'r arweiniad a ddarperir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) yn gryf iawn. Mae athrawon yn sicrhau gwahanol lefelau o ddysgu mewn gwersi yn fedrus, gan alluogi pob un o'r disgyblion i gael mynediad at y cwricwlwm. Mae staff a disgyblion yr ysgol yn defnyddio amrywiaeth o apiau yn effeithiol i gynorthwyo cyfieithu. Maent yn gweithio yn unol â chryfderau disgyblion, ac yn darparu ciwiau gweledol, delweddau wedi'u labelu a fideos a chymorth mewn

grŵp bach i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn ymgysylltu’n llawn â’u dysgu. Mae’r ysgol yn datblygu mewnwelediad sylweddol i anghenion disgyblion sydd wedi cyrraedd o wledydd eraill yn ddiweddar, ac yn defnyddio hyn yn dda i deilwra’i chymorth.

Mae anogaeth ar gyfer disgyblion a theuluoedd yn gryf iawn. Mae’r ysgol yn defnyddio Gweithwyr Cyswllt Teuluoedd i ddarparu ystod helaeth o gymorth. Maent yn cynnig cyrsiau ar gyfer rhieni, gwahanol ffurfiau o gwnsela a chyngor ar arferion defnyddio’r toiled a chysgu. Mae’r ysgol yn sicrhau ymagwedd ddi-dor at gymorth penodol ar gyfer teuluoedd, gan chwalu rhwystrau cyfathrebu a meithrin perthnasoedd ymddiriedus ac ystyrlon. Mae’r ysgol yn derbyn nifer fawr o ddisgyblion o Wcráin, gan hwyluso’r hyfforddiant ar gyfer y clwstwr, a ddarparwyd gan y Pwyllgor Achub Rhyngwladol. Helpodd hyn ddisgyblion i ymgynefino yn yr ysgol a helpu’r staff i ddeall y problemau oedd yn wynebu’r plant a’r teuluoedd. O ganlyniad i’r gwaith hanfodol hwn, mae presenoldeb a deilliannau ar gyfer disgyblion yn well.

Mae’r ysgol yn cynorthwyo disgyblion ag ADY mewn ffordd hynod effeithiol. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn. Maent yn datblygu mapiau darpariaeth effeithiol i gynnwys anghenion yr holl ddysgwyr. Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gyflwyno’r cynnig cyffredinol cytunedig yn gyson, ac yn cefnogi ei weithredu trwy hyfforddiant perthnasol ar gyfer staff. Mae gan yr ysgol systemau tra datblygedig i nodi anghenion disgyblion, ac mae’n darparu ystod eang o ymyriadau buddiol. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn gwerthuso effaith ymyriadau yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn unigol. Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o ofynion y Ddeddf ADY ac yn gwneud cynnydd da iawn â’i gweithredu. Mae rheoli’r gwahanol ffurfiau pontio ar draws yr ysgol yn gryfder ac yn cynorthwyo pob un o’r disgyblion i deimlo’n ddiogel, yn saff, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae’r ysgol yn gweithio gydag ystod eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn llwyddiannus, er enghraifft seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith a phediatregwyr cymunedol. Yn ychwanegol, mae staff yn elwa ar berthnasoedd gwerthfawr o fewn eu clwstwr lleol o ysgolion, ac yn ymchwilio i ymyriadau ADY effeithiol gyda’r brifysgol leol.

Mae’r ysgol yn cefnogi lles corfforol yn dda iawn. Mae disgyblion yn chwarae’n frwdfrydig â ‘rhannau rhydd’ yn ystod amser cinio, sy’n cefnogi eu cyd-chwarae, eu creadigrwydd, eu dychymyg a’u lles emosiynol. Caiff pob un o’r disgyblion gymryd rhan mewn gwersi ‘coedwig’ a defnyddio ystod eang o offer chwarae yn ystod amser chwarae.

Mae gan y Cyngor Ysgol rôl weithredol yng nghymuned yr ysgol. Ysgrifennodd lythyrau at yr AS lleol a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i amlygu problemau, a symbylu cystadleuaeth poster diogelwch ar y ffordd i helpu mynd i’r afael â’u pryderon. Mynychodd aelodau o’r Cyngor Ysgol ‘Uwchgynhadledd Llais y Disgybl’, gan gymryd rhan mewn gweithdai i drafod llais y dysgwr gyda disgyblion o ysgolion cynradd eraill.

Mae ystod o brofiadau yn meithrin hunanhyder a hunanfynegiant ac yn annog disgyblion i fod yn greadigol. Comisiynwyd arlunydd gan yr ysgol i weithio gyda disgyblion â SIY a’u teuluoedd i greu darn wedi’i beintio sy’n dathlu ac yn enwi’r

ieithoedd amrywiol a siaredir gan ddisgyblion, gan ddod â nhw i gyd at ei gilydd o amgylch baner Draig Cymru. At ei gilydd, mae darpariaeth yr ysgol i gefnogi datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch, empathi, gofal a chymorth. Ceir system sefydledig i adrodd am bryderon ynghylch diogelu, ac mae'r ysgol yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo'n briodol. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu gyda threfniadau clir ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi dangos arweinyddiaeth gref, drawsnewidiol. Mae hi wedi gweithio'n gydwybodol i gyflawni cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu'r ysgol, gwerthuso'i gwaith a chynllunio a chyflawni gwelliannau. Ceir ethos tîm cryf ymhlith pob aelod o staff, sy'n credu bod sicrhau diogelwch corfforol ac emosiynol yr holl ddisgyblion yn hollbwysig. Mae pob un o'r arweinwyr yn arwain yn gadarn ond yn ystyriol, a gyda chefnogaeth gan staff, maent wedi creu diwylliant cynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff, ac mae ganddynt synnwyr cryf o ymddiried mewn pobl eraill.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, eu staff a'r disgyblion. Ochr yn ochr â chymuned yr ysgol gyfan, maent wedi mireinio gweledigaeth yr ysgol yn ystyriol i adlewyrchu dyheadau uchel ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol. Mae arweinwyr a phob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion amrywiol y disgyblion a'r gymuned leol. Maent yn wydn ac yn ymdrechu â llawer o angerdd i ddiwallu'r anghenion hyn yn effeithiol. Er enghraifft, mae darpariaeth anogaeth ac adnoddau hynod lwyddiannus a theilwredig yr ysgol yn galluogi disgyblion i fagu hyder, meithrin eu hunan-barch ac integreiddio'n dda ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn sefydlu a chynnal diwylliant diogelu yn yr ysgol.

Mae prosesau gwerthuso a gwella'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff yn nodi blaenoriaethau perthnasol ac yn cymryd camau addas i ysgogi gwelliannau. Maent yn adolygu cynnydd tuag at flaenoriaethau gwella yn barhaus. Mae'r hyder a'r gallu ymhlith staff yr ysgol i weithredu'n reddfol i addasu cynlluniau a gwella arfer yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol, yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac ymchwil unigol, er enghraifft trwy ddatblygu ymyriadau cadarn ac ymagweddau at gynorthwyo disgyblion ag ADY, a thrwy gryfhau darpariaeth yr ysgol i wella profiadau disgyblion ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud cynnydd effeithiol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Maent wedi cynllunio, ac yn gwneud cynnydd da iawn tuag at gyflwyno eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwaith i fynd i'r afael â diwygio ADY yn hynod lwyddiannus a cheir ffocws craff ar wella medrau llythrennedd a chyfathrebu disgyblion. Mae arweinwyr wedi ymrwymo'n fawr i fynd i'r afael â thlodi yn y gymuned leol. Maent wedi gweithio'n ystyriol i archwilio darpariaeth yr ysgol a nodi a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn effeithiol. O ganlyniad i newidiadau a wnaed i arferion yr ysgol, mae'r ysgol yn diwallu anghenion

y gymuned yn dda iawn. Mae gwaith i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd ac addas i ddatblygu eu medrau Cymraeg, fodd bynnag, yn llai datblygedig.

Mae arweinwyr a staff wedi creu partneriaethau gweithio effeithiol â rhieni. Mae cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol yn hynod effeithiol. Mae pob un o’r arweinwyr yn hynod weladwy ac wrth law i groesawu disgyblion a siarad â rhieni ar ddechrau’r diwrnod ysgol. Mae rhieni’n ffyddiog fod yr ysgol yn gwneud y peth cywir ar gyfer disgyblion, ac yn gweithredu er eu lles pennaf bob amser. Mae asiantaethau arbenigol yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i roi cyngor a chymorth gwerthfawr i rieni; er enghraifft, mae therapyddion chwarae yn gweithio ochr yn ochr â rhieni er mwyn iddynt allu helpu eu plant i ddatblygu eu meddyliau a’u teimladau trwy weithgareddau chwarae gartref. Mae pob un o’r staff yn cynorthwyo rhieni’n sensitif, er enghraifft wrth helpu rhieni i gwblhau tasgau gweinyddol a deall yn well sut i gefnogi ymddygiad a chynnydd academaidd eu plant.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol yn gadarnhaol. Er enghraifft, pan roedd angen gwaith cynnal a chadw hanfodol ar yr adeilad ac roedd angen adnoddau darllen ychwanegol i gefnogi dysgu’r disgyblion, fe wnaethant sicrhau bod cyllid priodol ar gael. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a’r gymuned y mae’n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn deall blaenoriaethau gwella’r ysgol a’r rhesymau y tu ôl iddynt. Maent yn cynorthwyo arweinwyr i weithredu a monitro gwaith gwella’n briodol trwy ymweld â’r ysgol i weld datblygiadau yn uniongyrchol. Mae llywodraethwyr yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio cyllid grant yn ddoeth ac yn effeithiol. Maent yn rhagweithiol ac yn sicrhau bod pob un o’r disgyblion sydd angen ymyriadau teilwredig i wella’u dysgu, eu lles a’u hiechyd emosiynol yn gallu manteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Er enghraifft, mae arweinwyr yn darparu cymorth i ddisgyblion fynychu gwersi nofio ac ymweliadau ysgol, a dysgu chwarae offeryn cerdd. Mae adnoddau i gefnogi ymwybyddiaeth ofalgar ar draws yr ysgol wedi effeithio’n gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion, ac yn benodol ar eu parodrwydd i ddysgu. Mae arweinwyr ac athrawon yn olrhain unigolion a grwpiau yn drylwyr i sicrhau bod unrhyw ymyriadau a ariennir gan grantiau yn cynorthwyo disgyblion i ffynnu a chyflawni.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2023